# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **08:30 - 08:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Jocelyn Davies (yn lle Elin Jones)**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire Fife, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Croesawodd y Pwyllgor Busnes Jocelyn Davies a oedd yn dirprwyo ar ran Elin Jones.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y newidiadau i fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth. Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Cartrefi Symudol (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3 a 4 ddydd Mercher.

Ddydd Mawrth, dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes.

3(iv) Y Bil Cartrefi Symudol (Cymru): Llythyr gan Peter Black

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Peter Black yn nodi ei fwriad i gyfeirio'r Bil Cartrefi Symudol (Cymru) i'r Cyfnod Adrodd yn dilyn y ddadl Cyfnod 3 sydd wedi'i threfnu ar gyfer dydd Mercher.

3(v) Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad yr Haf

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Deddfwriaeth a'r Siambr dros doriad yr haf.

## 4 Deddfwriaeth

4(i) Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) at y Pwyllgor Cyllid i'w ystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i hepgor trafodion Cyfnod 1, yn amodol ar weld y Bil adeg ei gyflwyniad. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 8 Tachwedd 2013.

4(ii) Rheoli'r Rhaglen Ddeddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r Pwyllgor Busnes wrth gyfeirio Biliau at Bwyllgorau i graffu arnynt yng Nghyfnod 1 a 2 a'r materion sy'n deillio o hynny.

Nododd Gweinidog Busnes y Llywodraeth y byddai'n edrych ar sut fyddai Gweinidogion yn rhannu gwybodaeth am Filiau gydag Aelodau yn y dyfodol.

### UNRHYW FUSNES ARALL

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddadl Cyfnod 3 wythnos diwethaf ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) a chytunodd iddi ddangos y Cynulliad ar ei orau fel deddfwrfa aeddfed. Nododd y Llywydd y byddai'r arfer o beidio â glynu'n dynn at y cyfyngiad amser ar gyfer cyfraniadau Aelodau yn ystod dadleuon Cyfnod 3 yn parhau ar gyfer dadleuon Cyfnod 3 sydd i ddod.